Ardal Llanfairfechan – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
9 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng W. E. Jones
Cyng. W. Roberts
Cyng. A. Hinchliff

1. Rhagymadrodd

Darparodd DB ragymadrodd i'r cyfarfod ac esboniodd beth fyddai'n ei gynnwys gan gynnwys yr elfen gweithdy.

2. Cyflwyniad

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Datblygu. Cyfeiriwyd at dudalen 10 dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedwyd bod y manteision a restrwyd ar gyfer cyfuno ysgolion babanod ac iau wedi dod o awdurdod arall. Nid oedd yn golygu nad oedd y manteision hyn yn cael eu cyflawni gan y ddwy ysgol ar wahân. Dywedwyd y byddai DP yn cyflwyno'r manteision dros ysgolion babanod ac iau ar wahân yn ei gyflwyniad.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: Mae hwn yn gyfle ardderchog i symud ymlaen a chyfuno ysgolion i lunio un ysgol fodern. Mae'r manteision yn aruthrol a gallwn ddarparu plant gyda'r holl adnoddau sydd ganddynt eu heisiau.
A: Os oes gan yr ardal diddordeb mewn symud hyn ymlaen, yna gallai'r ardal gael ei blaenoriaethu.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Cyfeiriodd at dudalen 10 dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedodd bod y ddwy ysgol yn cael y manteision hyn. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o'r ysgolion a sut maent yn gweithredu nawr. Mae'r modd yr ysgrifennwyd tudalen 10 yn edrych fel pe bai cyfuno babanod ac iau'n strategaeth, ond nid yw hynny'n gywir ac ymddiheurwn am hyn. Daeth y manteision a restrwyd o Dorfaen ac fe'u cymeradwywyd gan y Gweinidog Cymreig fel rhestr o fanteision posibl. Cyflwynodd DP restr posibl o blaid ysgol babanod ac iau ar wahân:

- Mae ysgolion babanod ac iau yn canolbwyntio ar un cyfnod allweddol yn unig.
- Mae staff yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio eu haddysgu a dysgu yn benodol ar yr amrediad oed disgyblion.

- Mae staff yn arbenigo ar un cyfnod allweddol ac yn darparu cyfleoedd yn ymwneud â'r cyfnod allweddol hwnnw ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae llwybrau gyrfa staff yn fwy penodol.
- Mae babanod yn cael cyfleoedd cynyddol i dderbyn cyfrifoldebau.
- Mae buarthau chwarae babanod ac iau yn caniatáu chwarae sy'n canolbwyntio ar oed a chyfleoedd datblygu.

Esboniwyd bod maint ysgol yn cael ei gyfrifo gan fformiwla a ddarparwyd gan LICC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Nid oedd arwynebedd llawr dosbarth meithrin wedi'i gynnwys. Dim ond disgyblion llawn amser a ystyriwyd ar gyfer cyfrifo lleoedd gwag.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut oedd yn cael ei gyfrifo – edrychwyd ar niferoedd derbyniadau'r tair blynedd diwethaf a defnyddiwyd y cyfartaledd i ragamcanu niferoedd. Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae amcanion pob ysgol wedi bod o fewn 1% i fod yn gywir. Mae rhagamcanion disgyblion yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Cynhyrchwyd rhestr 'Addas i'r Pwrpas' trwy fwletin adeiladau ac awgrymiadau a gafwyd o'r cyfarfodydd dechreuol. Nid yw'n rhestr o hanfodion, ond pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Nodwyd bod yr ystadegau'n gywir pan oeddent yn cael ei hysgrifennu.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: A yw'r rhestr 'addas i'r pwrpas' yn dweud y gellir addasu Ysgol Pant Y Rhedyn ac na ellir gwneud hynny i Ysgol Llanfairfechan ?
A: Cywir.
C: Llawr yw'r unig ofod dosbarth?
A: Cywir.
C: Pe codid adeilad newydd ar gyfer ysgol wedi'i chyfuno, ai un dewis fyddai edrych ar safle newydd ?
A: Fe ddaw hyn o'ch trafodaeth yn ystod y gweithdy a byddem yn hoffi eich ymateb ynghylch y posibilrwydd. Pe baech am fynd ymlaen gyda safle wedi'i chyfuno, byddai astudiaeth ymarferoldeb ynghylch edrych ar safleoedd posibl.
C: A ydych wedi gwneud unrhyw ymchwil ynghylch pam nad yw pobl yn anfon eu plant i'w hysgol leol ?
A: Mae'r graffiau'n dangos mai ond 3% o blant sydd ddim yn mynd i'w hysgol leol am resymau anhysbys ac mae 16% yn mynd i ysgolion yng Ngwynedd. Mae'n aneglur pam nad ydym wedi gofyn i rieni'n uniongyrchol ac mae'n fater o ddewis rhieni. Gallai patrymau gweithio fod yn rheswm, amgyffred rhieni o'r ysgol, hen draddodiadau a rhieni eisiau i'w plant fynd i ysgol uwchradd ym Mangor.
C: Angen dweud yn lleol pa mor dda yw'r ysgolion.
A: Mae cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer ysgolion yn bwysig iawn ac rydym yn ceisio gwella hyn.
C: Gan fod y grŵp chwarae nawr yn bwydo'n uniongyrchol i Ysgol Llanfairfechan, mae hyn yn cynyddu'r niferoedd sy'n mynd i'r ysgol. Y prif reswm pam fod rhieni yn mynd â'u plant i ysgol gynradd arall yw oherwydd patrymau gwaith.
C: Pe bai holl blant yr ardal yn mynd i'r ysgolion lleol, a fyddem yn parhau gyda lleoedd sbâr?

A: Byddai lleoedd sbâr yn parhau.

Esboniodd GT y gweithdy. Cyflwynwyd dau gwestiwn i'r grwpiau; beth sy'n gweithio nawr ? a beth ellid ei wella ? Cyfeiriwyd hefyd at wal syniadau/pryderon.

3. Ymateb o'r gweithdy

Beth sy'n gweithio'n dda? Ysgol Pant y Rhedyn

- Ysgolion ar wahân – plant yn dygymod yn well mewn ysgolion llai
- Lleoliad babanod – canol y pentref
- Penaethiaid efo profiad perthnasol
- Hawdd i rieni drafod gydag athrawon/penaethiaid
- Grŵp chwarae ar yr un safle â'r ysgol babanod
- Clwb brecwast yn gweithio'n dda
- Clwb cinio yn gallu helpu
- Amgylchedd addysgu da - cadw gafael ar athrawon.

Beth sy'n gweithio'n dda? Ysgol Babanod

- Clwb brecwast
- Clwb cinio – clybiau ar ôl ysgol
- Meithrin a grŵp chwarae ar y safle
- Canolog a hwylus i'r trigolion
- Gweithgareddau lleol/cymdeithasol
- Cyswllt â'r eglwys
- Cyfathrebu ardderchog – rhieni / rheolaeth staff
- Economi'r gymdeithas
- Gweithdy rhieni – dod i adnabod ein gilydd
- Cysylltiadau – heddlu, llyfrgell
- Grŵp chwarae – niferoedd wedi cynyddu
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Nid yn rhy fawr – nid yn rhy fychan – maint da i'r ardal

Beth allwn ei wella? Ysgol Pant y Rhedyn

- Darpariaeth ar ôl ysgol
- Amgylchedd ffisegol – oed yr adeiladau
- Gwelliant parhaus mewn darpariaeth Gymraeg
- Gwell adnoddau mewn adeilad newydd
- Gwell adnoddau chwaraeon
- Diogelu plant gyda pharcio gwell etc.
- Trigolion yn defnyddio'r adeiladau
- Mynediad i'r ysgol – hwylustod
- Mynediad i'r anabl
- Parhad addysg

Beth allwn ei wella? Ysgol Babanod

- Defnydd gan yr ardal – hyfforddiant i drigolion
- Toiledau
- Man chwarae y tu allan – Babanod
- Datblygu lle chwarae
- Neuadd aml bwrpas
- Clwb ar ôl ysgol
- Isadeiledd cyffredinol
- Maes parcio
- Camau rheoli traffig y tu allan i'r ysgol
- Diogelwch yr ysgolion
- Ystafelloedd TGC
- Mwy o le tu allan
- Gwell adnoddau i staff / swyddfa – ystafell athrawon
- AAA – ystafelloedd

- Addasrwydd – Ynni – Eco

Dywedodd GT y byddai'n casglu'r holl wybodaeth ac ymateb trwy'r penaethiaid. Gellir parhau i anfon barn a syniadau ar ôl y cyfarfod trwy bost-e at TJB neu Wasanaethau Addysg.

4. Sesiwn derfynol cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: Mae Cylch Meithrin yn bwysig iawn er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n mynychu ysgolion lleol. Rhaid i ysgol newydd fod yn fodern iawn ac yn ganolog i'r ardal.
C: Pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai'n annog rhieni i anfon eu plant i'r ysgol leol.
C: Angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cylch Meithrin a hyrwyddo ysgolion lleol.
A: Byddem yn bendant yn cymryd Cylch Meithrin i ystyriaeth pe bai ysgol newydd yn cael ei chodi.
S: Pe bai safle arall yn cael ei hystyried, mae angen sicrhau bod llwybrau diogel i'r ysgol ble gall plant gerdded yn rhwydd i'r ysgol. Angen sicrhau nad yw unrhyw safle newydd yn rhy bell o'r pentref.
A: Byddwn yn bendant yn cymryd llwybrau diogel i'r ysgol i ystyriaeth wrth edrych ar ymarferoldeb safleoedd newydd.
S: Angen hefyd cymryd i ystyriaeth plant sy'n byw ym Mhendalar a sicrhau eu bod hwy wedi'u cynnwys.
A: Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr astudiaeth ymarferoldeb.
S: Rhaid sicrhau bod plant sydd ag anawsterau dysgu yn cael yr un safon o addysg.
A: Dylai unrhyw beth a ddarparwyd ar y safle newydd i blant gydag anawsterau fod i'r un safon â'r hyn sy'n bodoli nawr neu well.
C: Gan fod Ysgol Llanfairfechan yn un Reoledig Wirfoddol – beth fyddai'n digwydd i'r cysylltiad â'r eglwys?
A: Byddai hyn yn cael ei drafod gyda Swyddfa'r Esgobaeth a gobeithir y bydd ymwneud yr eglwys yn parhau pe bai'r safle newydd wedi'i chyfuno.
C: Ai cyfuno yw'r unig ffordd ymlaen?
A: Yn fy marn broffesiynol i, byddai mwy o obaith o gael arian gan y Cynulliad pe baem yn mynd am un safle gan mai eu nod yw lleihau lleoedd gwag. Er nad yw hyn yn golygu na allai dau adeilad ar wahân fod ar y safle.
C: A fyddai staff yn colli gwaith oherwydd cyfuno?
A: Unwaith y gwyddom ddymuniad pob ardal, byddwn yn sefydlu tîm adnoddau dynol i weithio gydag undebau i roi cyngor i staff ar y canlyniad gorau iddynt. Y rhesymeg yw os ydym yn cadw'r un nifer o ddisgyblion, yna bydd arnom angen yr un nifer o ddosbarthiadau mewn ysgol wedi'i chyfuno – byddem yn symud yr holl staff i un safle. Gallai gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn blynyddoedd i ddod arwain at adolygiad o nifer y dosbarthiadau.
C: Wrth ddisgwyl am arian i ddod trwodd ar gyfer adeilad newydd, a fyddech yn parhau i fuddsoddi yn yr ysgolion fel maent yn bresennol ?
A: Bydd arian yn nhermau refeniw yn parhau i gael ei ddarparu'n flynyddol i ysgolion fel y gallant ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn adnoddau. Bydd y gyllideb cynnal a chadw yn parhau i gynnal adeiladau. Wrth lunio strategaeth, bydd yn cael ei ysgrifennu gyda

rhestr flaenoriaeth fel y bydd yn darparu amserlen ar gyfer pryd y ceir yr arian.

C: A oes gennych arolwg o'r ddau adeilad?
A: Mae'r wybodaeth hon gennym a gellir ei gael o'r adran Rheoli Safle.
S: Mae ar y ddau adeilad angen buddsoddiad i'w diweddaru.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal bryderon/syniadau

- Clybiau
- Meithrinfa/grwpiau chwarae
- Lleoliad yr adeilad newydd
- Beth i'w wneud â'r hen safle
- Hanes yr ysgol / pentref cyfan – defnydd yr ardal
- Cysylltiadau â'r eglwys
- Economi – Siopa yn lleol
- Hyfforddiant, mannau chwarae, neuadd, parcio, traffig, adnoddau staff, AAA, ysgolion Eco.
- Atebolrwydd athro
- Canolbwyntio ar grŵp oed
- Lleoliad canolog
- Cadw athrawon
- 99% o blant y grŵp chwarae yn aros yn Ysgol Babanod – clwb brecwast a chinio yn gwella'r sefyllfa.
- Bod rhieni yn ymwybodol o statws yr ysgol ar ôl cyfuno – ysgol a gynorthwywyd gan yr eglwys
- Bydd y dirwasgiad wedi cael effaith ar y boblogaeth. A yw ymchwil pellach gyda data hanesyddol wedi cymryd ystyriaeth o'r cyfnodau hyn?
- Ni fu newid.
- Mae niferoedd yn gostwng yng Nghonwy (yn arbennig yn Llanfairfechan) ac yn mynd i Fangor oherwydd y polisi iaith Gymraeg. Nid ydym ond yn byw ychydig filltiroedd o ffin y sir, ond yn gorfod dilyn polisi Conwy. Bydd cynyddu iaith o 25% i 50% yn cadw rhai disgyblion yma.